Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn
Heol y Bardd, Porth Tywyn,
Sir Gaerfyrddin SA16 0NL
Ffôn:- 01554 832101
Ebost: admin@parcytywyn.ysgolccc.cymru
www.ysgolparcytywyn.co.uk
Pennaeth / Headteacher : Mr C Davies

06/12/2020

# PWYSIG : At sylw rheini Bl 3 Mrs E Evans

Annwyl Riant / Gwarcheidwad,

Fe'n hysbyswyd bod unigolyn yn ein hysgol wedi profi'n bositif am COVID-19. Hoffwemeich sicrhau nad oes unrhyw achos i bryderu ar hyn o bryd, ac fe ymdrechwn i roi cymaint o wybodaeth â phosibl i chi. Rydym yn gweithio'n agos gyda Chyngor Sir Caerfyrddin a GIG Cymru a'i rhaglen Profi, Olrhain, Diogelu (TTP), ac rydym yn dilyn yr holl gyngor ac arweiniad a roddwyd i ni.

**Mae disgyblion ac aelodau staff dosbarth Blwyddyn 3 Mrs E Evans wedi cael eu nodi fel rhai a allai ddod i gysylltiad agos â'r unigolyn sydd wedi profi'n bositif**. Mae'r tîm TTP wedi cadarnhau gyda ni y bydd angen i ddosbarth blwyddyn 3 Mrs E Evans' / eich plentyn **hunan-ynysu fel rhagofal am 14 diwrnod**. Bydd y dyddiad dychwelyd i'r ysgol yn cael ei gadarnhau maes o law. Bydd y Tîm TTP / Pennaeth yn cysylltu â rhieni / disgyblion unigol i gadarnhau hyn ymhellach.

Gall pawb arall ar yr aelwyd barhau fel arfer (fodd bynnag, os bydd eich plentyn yn dod yn symptomatig, yna byddai angen i'r cartref cyfan hunan-ynysu.

Mae'r broses hon o brofi ac olrhain cysylltiadau yn rhan o'r 'normal newydd' a lle mae ysgolion yn dilyn y canllawiau hyn yn ofalus, nid oes rheswm i bryderu.

Os bydd unrhyw achosion positif pellach, bydd yr holl ddiweddariadau'n cael eu cyhoeddi ar wefan y cyngor

https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/addysg-ac-ysgolion/

Hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i'ch atgoffa os byddwch chi, eich plentyn neu unrhyw un rydych chi'n byw gyda, yn dechrau arddangos y symptomau canlynol, bydd angen i chi gyd aros gartref a dilyn cyngor gan Iechyd Cyhoeddus Cymru:

· Peswch parhaus newydd a/neu
· Tymheredd uchel
· Colli neu newid yn eich synnwyr arferol o flas neu arogl.

Os bydd eich plentyn yn mynd yn sâl y tu allan i oriau ysgol, gyda neu heb unrhyw un o symptomau COVID-19, neu os oes angen iddo hunanynysu, rhowch wybod i ni drwy ffonio Llesiant Delta ar 0300 333 2222 neu drwy anfon e-bost at TTP@deltawellbeing.org.uk a fydd yn hysbysu'r ysgol ar eich rhan.

Yn ystod oriau ysgol ac am bob mater arall sy'n ymwneud ag iechyd, rhowch wybod i'ch ysgol yn uniongyrchol.

Os ydych chi neu'ch plentyn yn teimlo'n sâl a bod angen cyngor meddygol arnoch, ffoniwch GIG 111 neu ewch i'w gwefan 111.wales.nhs.uk, neu ffoniwch eich meddyg teulu lleol.

Mae'n bwysig ein bod ni gyd yn parhau i fod yn wyliadwrus ac yn cadw pellter cymdeithasol, parhau i olchi ein dwylo'n aml, a gwisgo gorchudd wyneb lle bo'r angen er mwyn atal lledaeniad y feirws cymaint ag y gallwn. Gobeithiwn fod y wybodaeth yma o gymorth ac yn ddefnyddiol; gwerthfawrogwn y gall fod yn amser pryderus.

Gwerthfawrogwn eich cefnogaeth barhaus. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, peidiwch oedi i gysylltu â ni.

***C Davies***
Pennaeth